**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Dame Rosemary Butler AM**

Llywydd
Presiding Officer

At: Cadeiryddion Pwyllgorau

15 Gorffennaf 2015

Annwyl Cadeirydd

Er mwyn cynnal y momentwm a grëwyd gan ymweliad y Cynulliad â Wrecsam yn gynharach eleni, ac i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd, rwy'n awyddus i gyflwyno digwyddiad @Senedd arall yn ystod tymor yr hydref yn Abertawe, lle'r oedd y niferoedd isaf o ran pleidleisio dros Gymru gyfan yn 2011.

Mae'r wythnos 12-18 Hydref 2015 yn ddelfrydol, sy'n cyd-fynd ag wythnos democratiaeth leol Ewrop, ac felly rydym yn cynllunio gweithgareddau i gael eu cynnal yr wythnos honno.

Un o brif ganfyddiadau'r gwerthusiad o Senedd@Wrecsam oedd bod angen galluogi pwyllgorau i ystyried eu cyfranogiad posibl yn llawer cynharach yn y broses gynllunio. Felly, rwy'n gwahodd unrhyw awgrymiadau sydd gan eich pwyllgor ynghylch sut y gallai gymryd rhan yn y fenter Senedd@Abertawe.

Bu'r Dirprwy Lywydd a minnau yn brysur iawn yn y rhaglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau, ymweliadau a gweithdai a ddigwyddodd fel rhan o Senedd@Wrecsam, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â dros 2,000 o bobl ar waith y Cynulliad. Fe wnaethom ni, a'r Aelodau a oedd yn gallu cymryd rhan dderbyn adborth hynod o gadarnhaol ac adlewyrchwyd hyn hefyd yn y cyfryngau lleol. Gall ddigwyddiad tebyg yn Abertawe fod yn gyfle gwych i'ch pwyllgor feithrin perthynas waith newydd gyda llawer o sefydliadau a chyfryngau lleol.

Os yw hyn o ddiddordeb i chi a'ch pwyllgor, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ofyn i Glerc eich Pwyllgor i gysylltu â fy swyddfa i drafod ymhellach.

Diolch i chi am eich cydweithrediad o flaen llaw.

Rosemary Butler

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**
**Llywydd**

**E-bost newydd: Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru / Rhif ffôn newydd: 0300 200 6232**
**New e-mail: Private.Office@assembly.wales / New telephone number: 0300 200 6232**
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cymru.gov.uk
www.cynulliadcymru.org
T +44 (0)29 2089 8230

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1NA
Private.Office@wales.gov.uk
www.assemblywales.org
T +44 (0)29 2089 8230